# Canllawiau cyhoeddusrwydd cyn yr etholiad

# Etholiad Cyffredinol ‘24 Llywodraeth y DU

sirgar.llyw.cymru

# Cyfarwyddyd i Gynghorwyr a chyflogeion yn y cyfnod cyn Etholiadau Cyffredinol Llywodraeth y DU - 4 Gorffennaf, 2024

**CYFLWYNIAD**

Bydd Etholiad Cyffredinol Llywodraeth y DU yn cael ei gynnal ar **4 Gorffennaf, 2024**.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r etholiad ar gyfer etholaeth Caerfyrddin ac etholaeth Llanelli.

Nid yw'r gyfraith mewn perthynas â'r mater hwn yn atal y Cyngor rhag cyflawni ei swyddogaethau ond mae'n rhaid i'r Cyngor osgoi rhoi'r canfyddiad bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plaid wleidyddol benodol a/neu ymgeisydd unigol a allai ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i holl aelodau, gweithwyr a chontractwyr y Cyngor.

**Bydd y cyfnod cyn yr etholiad yn dechrau ar 31 Mai 2024.**

**CANLLAWIAU CYN YR ETHOLIAD**

1. Yn ystod cyfnod yr etholiad, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ddiduedd.

2. Ni ddylai'r Cyngor roi amlygrwydd na chyhoeddusrwydd i unrhyw ymgeisydd na phlaid wleidyddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae angen cymryd gofal ynglŷn â materion a gyflwynir i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau neu faterion sy'n cael sylw'r cyhoedd ac a welir fel rhai sy'n gysylltiedig ag ymgeiswyr unigol neu blaid wleidyddol.

3. Dylai'r Cyngor ymdrechu i gymryd safiad niwtral a dylai osgoi gwneud unrhyw beth neu ddweud unrhyw beth y gellid tybio ei fod yn hyrwyddo ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol.

4. Ni ddylai cyhoeddusrwydd y Cyngor a/neu unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu ymdrin â materion dadleuol neu wleidyddol sensitif yn lleol neu'n genedlaethol. Ni ddylai'r Cyngor roi sylw i safbwyntiau, cynigion neu argymhellion mewn modd sy’n ei briodoli i unrhyw bleidiau gwleidyddol a/neu ymgeisydd unigol.

5. Gall ymgeiswyr a/neu bleidiau gwleidyddol ryddhau eu datganiadau eu hunain i’r wasg neu gyhoeddi gwybodaeth gyhoeddus yn gyfreithlon. Dylai fod yn glir fod y rhain yn cynrychioli barn yr ymgeiswyr/pleidiau unigol hynny ac nid barn y Cyngor.

6. Ni ddylai'r Cyngor gynnal gweithgareddau na gwneud unrhyw gyhoeddiadau neu benderfyniadau sy’n rhoi mantais etholiadol i ymgeisydd penodol neu blaid wleidyddol neu y gellid dod i’r casgliad eu bod yn gwneud hynny.

7. Ni ddylid rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan gyllid grant y Llywodraeth yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Mae'n **rhaid** i eithriadau i'r dyfarniad hwn gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Canlyniadau Dros Dro.

8. Gall ymarferiadau ymgynghori barhau fel arfer yn ystod cyfnod yr etholiad ar yr amod nad oes cyfeiriad at ymgeiswyr unigol neu blaid wleidyddol neu gyswllt â hwy. Mae'n **rhaid** i unrhyw fwriad i lansio unrhyw ymgynghoriad neu ymarfer ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn gael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Canlyniadau Dros Dro.

9. Mae'n rhaid i weithwyr fod yn ddiduedd a sicrhau nad yw adnoddau cyhoeddus, sy'n cynnwys sefydliadau'r Cyngor, yn cael eu defnyddio at ddibenion unrhyw ymgeisydd. Dylai llythyron neu negeseuon e-bost gan bob ymgeisydd gael eu trin yn gyfartal ac ni ddylid defnyddio cyfleusterau'r Cyngor ar gyfer argraffu, cyfieithu a/neu bostio deunydd cyhoeddusrwydd yr ymgeiswyr.

10. Mae'n rhaid i weithwyr beidio â darparu briffiau i'w defnyddio mewn dadleuon ymgyrchu/llenyddiaeth a deunydd cyhoeddusrwydd yr etholiad sy'n ymwneud ag ymgeiswyr unigol neu blaid wleidyddol.

11. Yn ystod cyfnod yr etholiad, dylid osgoi cyfarfodydd gydag ymgeiswyr, oni bai eu bod yn gyfarfodydd rheolaidd (er enghraifft, cyfarfod corff partneriaeth) y mae’r unigolion dan sylw yn cymryd rhan ynddynt fel arfer. Dylai swyddogion beidio â gwahodd ymgeiswyr, unigolion sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol, neu unrhyw aelodau etholedig i gyfarfodydd, cynadleddau, agoriadau neu ddigwyddiadau lansio yn ystod cyfnod yr etholiad.

12. Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyfarfod cyhoeddus yn ystod cyfnod yr etholiad at ddibenion ymgyrchu a chynnal dadl. Hefyd, ni ddylid arddangos posteri neu sticeri ar gyfer unrhyw blaid wleidyddol neu/ac unrhyw ymgeiswyr, ar swyddfeydd y cyngor, cartrefi preswyl, depos, ysgolion, cerbydau ac ati neu'r tu mewn iddynt.

13. Gallwn gyhoeddi gwybodaeth ffeithiol am ymgeiswyr os gofynnir i ni wneud hynny gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol perthnasol.

14. Yn unol â phrotocol y wasg a'r cyfryngau sydd gan y Cyngor, dylai pob cyswllt â'r wasg fod trwy'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau. Bydd unrhyw ddatganiadau'r Cyngor y mae angen eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu priodoli i uwch-swyddog a enwir.

15. Ni chaiff ffotograffau o ymgeiswyr, unigolyn sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol, neu unrhyw aelodau etholedig eu rhyddhau neu'u cyhoeddi gan y Cyngor.

16. Mae angen i bawb gymryd gofal arbennig mewn perthynas â defnyddio'r holl sianeli cyfryngau cymdeithasol megis X (Twitter), Facebook, Instagram, TikTok. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i bostio ac ymateb. Dylai golygyddion cyfryngau cymdeithasol corfforaethol gyfeirio at y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol i gael arweiniad pellach ynghylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

17. Os oes gan aelodau neu swyddogion unrhyw gwestiynau mewn perthynas ag unrhyw amgylchiadau arbennig dylent gysylltu â:

| | | |
|---|---|---|
| Steve Murphy | Pennaeth y Gyfraith Dros Dro, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil / Swyddog Monitro Dros Dro | 01267 224010 spmurphy@sirgar.gov.uk |
| Deina Hockenhull | Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau | 01267 224654 DMHockenhull@sirgar.gov.uk |
| Caio Higginson | Rheolwr y Cyfryngau | 07880504296 CSHigginson@sirgar.gov.uk |
| Amanda Edwards | Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil | 01267 228609 AmEdwards@sirgar.gov.uk |
| Wendy Walters | Swyddog Canlyniadau Gweithredol | 01267 224112 WSWalters@sirgar.gov.uk |